# Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023

Pwnc: Dyfodol Nyrsio Cymunedol
Tŷ Hywel, y Senedd; 28 Chwefror 2023; 18:00 – 19:30

### Yn bresennol yn y cnawd

Jenny Rathbone AS (**Cadeirydd**)
Russell George AS
Helen Whyley, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN Cymru)
Nicky Hughes, Cyfarwyddwr Cyswllt (Cysylltiadau Cyflogaeth), RCN Cymru
Lisa Keith, Cynghorydd y Sector Annibynnol a Chymunedau, RCN Cymru
Lorraine Joomun, Cynghorydd Addysg a Dysgu Gydol Oes, RCN Cymru
Sarah Williams, Swyddog Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus, RCN Cymru
Aysima Harper, Cynorthwyydd Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus, RCN Cymru
Chiquita Cusens, Nyrs Arweiniol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol
Alison Magor, Prif Nyrs Ardal a Rheolwr Tîm
Teresa Neate, Aelod o Dîm Nyrsio Cymunedol Caerdydd
Julie Roberts, Cyfarwyddwr, Coleg Brenhinol y Bydwragedd Cymru (RCM Cymru)
Stacey Keane, Cynrychiolydd Gweithle, RCM Cymru

### Yn bresennol ar-lein

Paul Labourne, Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru
Deb Evans, Arweinydd Proffesiynol RCN Cymru, Nyrsio Cymunedol
Shirley Willis, Darlithydd ar gyfer Diploma Ôl-radd ym maes Astudiaethau Iechyd Cymunedol
Abigail Swindail, Arweinydd ym maes Gwybodeg Glinigol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol
Marie Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys
Susan Thomas, Arweinydd Clwstwr Gofal Sylfaenol/Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, Gorllewin Casnewydd
Nick Unwin, Swyddog Ymgyrchoedd a Materion Seneddol, RCN Cymru

### Ymddiheuriadau

Lisa Turnbull, Rheolwr Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus, RCN Cymru
Sandy Harding, Cyfarwyddwr Cyswllt (Ymarfer Proffesiynol), RCN Cymru

Gan fod y Cyfarfod Llawn wedi rhedeg yn hwyr, dechreuodd y cyfarfod hwn am 18:40.

Croesawodd **Jenny Rathbone AS**, sef **Cadeirydd** y grŵp, bawb i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y grŵp ac ailethol swyddogion yn ystod y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, gan fod y cyfarfod wedi dechrau'n hwyr, ac yn sgil nifer y siaradwyr

gwadd a oedd yn ymuno â'r cyfarfod, penderfynodd y Cadeirydd i ohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol tan y cyfarfod nesaf.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar ffurf hybrid, gyda rhai pobl yn bresennol yn yr ystafell, ac eraill yn ymuno drwy MS Teams.

Testun y cyfarfod hwn oedd **Dyfodol Nyrsio Cymunedol:**

## Cafwyd sylwadau rhagarweiniol gan:

- *Chiquita Cusens, Nyrs Arweiniol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol* – trosolwg byr o Fodelau Clwstwr Carlam.

- Paul Labourne, Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru – diweddariad ynghylch Nyrsys Ardal Cymdogaeth (NDN).

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn y briff a rannwyd yn ystod y cyfarfod fel atodiad i'r cofnodion.

## Trafodaeth gyffredinol, gan gynnwys:

- Materion staffio
- Aelodau'r gweithlu yn cael eu dadsgilio yn sgil ehangu timau unigol
- Gwybodaeth, profiad a hyfforddiant digonol ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol
- Cymorth o ran hyrwyddo/esbonio'r rôl ymhlith y rhai sy'n ei hystyried fel gyrfa
- Systemau gwybodaeth glinigol
- Dysgu yn sgil llwyddiannau a methiannau at ddibenion gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau
- Prosiect rhagnodi electronig ym Mhowys
- Cydraddoldeb darpariaeth – yn enwedig ar y ffin

## Sylwadau i gloi

**Diolchodd Jenny Rathbone AS** i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau i'r drafodaeth.

**Pwysleisiodd Helen Whyley b**wysigrwydd rôl Nyrsio Cymunedol a'r buddion sylweddol y mae'r rôl hon yn eu darparu ar gyfer cymunedau. Diolchodd Helen i bawb a oedd yn bresennol hefyd, a diolchodd i Jenny Rathbone AS am gadeirio'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:00. Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2023.